# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 173(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Y diweddaraf am Gynllun Cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Y diweddaraf am Weithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

(30 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Dadl: "Astudiaeth Ddichonoldeb i Oriel Gelf Gyfoes i Gymru" ac "Astudiaeth Ddichonoldeb i Amgueddfa Chwaraeon i Gymru"

(60 munud)

**NDM6873** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi'r astudiaethau dichonoldeb ar "Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru - Astudiaeth Ddichonoldeb" ac "Amgueddfa Chwaraeon i Gymru - Astudiaeth Ddichonoldeb".

2. Yn croesawu'r dadansoddi a'r argymhellion yn y ddau adroddiad, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau sydd ynghlwm wrthynt.

3. Yn cydnabod bod gofyn gwneud rhagor o waith cyn y gall penderfyniadau gael eu gwneud ynghylch camau gweithredu yn y dyfodol.

Astudiaeth Ddichonoldeb Amgueddfa Chwaraeron i Gymru
Astudiaeth Ddichonoldeb Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod gwerth y dadansoddiad a ddarparwyd yn y ddau adroddiad fel sail ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus helaeth;

Yn croesawu'r argymhellion ar gyfer paneli arbenigol i wella sut y caiff treftadaeth chwaraeon a chelfyddydol Cymru ei chydnabod a'i diogelu.

Yn credu bod yn rhaid i benderfyniadau ar weithredu yn y dyfodol adlewyrchu uchelgais i greu rhywbeth ffres ac sy'n arwain y byd.

**Gwelliant 2** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu ar ôl pwynt 2:

Yn croesawu'r argymhelliad y dylid sefydlu Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol yn Wrecsam.

**Gwelliant 3** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i weithredu argymhellion craidd yr adroddiad, 'Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru – Astudiaeth Dichonoldeb', yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys adeiladu pencadlys cenedlaethol parhaol ar gyfer Oriel Gelf Gyfoes i Gymru.

**Gwelliant 4** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3:

Yn croesawu'r argymhelliad y dylid gweithio tuag at adeiladu pencadlys cenedlaethol parhaol ar gyfer Oriel Gelf Gyfoes i Gymru.

**Gwelliant 5** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3:

Yn galw ar i Lywodraeth Cymru ymrwymo i weithredu argymhelliad canolog yr adroddiad, 'Amgueddfa Chwaraeon i Gymru – Astudiaeth Ddichonoldeb', y dylid creu amgueddfa bêl-droed genedlaethol yn Wrecsam

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Awdurdodau Lleol

(60 munud)

**NDM6875** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rôl bwysig a chwaraeir gan awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

2. Yn cydnabod yr heriau ariannu y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu yng Nghymru ar hyn o bryd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) adolygu a chynyddu'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2019-20; a

b) comisiynu adolygiad annibynnol o fformiwla ariannu llywodraeth leol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth ar ôl 2 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r pecyn o gynigion ariannu ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol i wella'r grant cynnal refeniw yn 2019-20, er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau wrth inni wynebu nawfed flwyddyn polisi cyni Llywodraeth y DU.

Yn nodi bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cefnogi'r cyhoeddiad fel cam arwyddocaol ymlaen sy'n dangos ymdrech ar y cyd i wrthbwyso effaith cyni yng Nghymru.

Yn nodi bod y setliad llywodraeth leol yn cael ei ddosbarthu drwy fformiwla gan ddefnyddio bron i 70 o ddangosyddion penodol, y cytunwyd arnynt gyda llywodraeth leol, dan oruchwyliaeth arbenigwyr annibynnol, ac yn seiliedig ar yr angen cymharol i wario a'r gallu cymharol i godi incwm yn lleol.

Datganiad Ysgrifenedig - Cyllideb Ddrafft 2019-20 - Cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol

***[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]***

**Gwelliant 2** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2:

Yn gresynu bod y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ddim ond ar gael o ganlyniad i'r arian canlyniadol o ddatganiad hydref Llywodraeth y DU.

**Gwelliant 3** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

parhau i chwilio am ffyrdd i ddarparu rhagor o arian ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2019/20.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Tlodi

(60 munud)

**NDM6874** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r datganiad gan rapporteur arbennig y Cenhedloedd Unedig ar hawliau dynol a thlodi eithafol yn sgil ei ymweliad â'r Deyrnas Unedig.

2. Yn gresynu at ganfyddiadau'r adroddiad:

a) bod newidiadau i nawdd cymdeithasol wedi cael effaith anghymesur ar fenywod, plant a phobl anabl;

b) bod gan Gymru'r gyfradd tlodi cymharol uchaf yn y Deyrnas Unedig;

c) nad oes gan Lywodraeth Cymru ffocws strategol ar fynd i'r afael â thlodi, heb ddangosyddion a thargedau perfformiad clir i fesur cynnydd ac effaith;

d) bod anallu Llywodraeth Cymru i gyflwyno hyblygrwydd wrth weinyddu credyd cynhwysol, yn wahanol i Lywodraeth yr Alban, yn gwaethygu'r achosion strwythurol sydd y tu ôl i'r cynnydd mewn tlodi, cysgu allan a digartrefedd; ac

e) bod tlodi yn ddewis gwleidyddol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ceisio'r pwerau i gyflwyno hyblygrwydd o'r fath wrth weinyddu credyd cynhwysol; a

b) cyhoeddi cynllun cadarn ac ystyrlon i fynd i'r afael â thlodi sy'n cynnwys dangosyddion a thargedau perfformiad clir i fesur cynnydd ac effaith.

Datganiad ar ymweliad â'r Deyrnas Unedig, gan yr Athro Philip Alson, Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar hawliau dynol a thlodi eithafol *(Saesneg yn unig)*

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch rhoi credyd cynhwysol ar waith.

2. Yn nodi, yn ôl canfyddiadau adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?', fod tlodi ac amddifadedd yn uwch yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill Prydain, mai Cymru yw'r genedl leiaf cynhyrchiol yn y DU, a bod enillion fesul awr canolrifol yng Nghymru yn is nag yn Lloegr a'r Alban.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun cadarn ac ystyrlon i fynd i'r afael â thlodi sy'n cynnwys dangosyddion a thargedau perfformiad clir i fesur cynnydd ac effaith.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - 'A yw Cymru'n Decach?'

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** - Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn derbyn canfyddiadau'r adroddiad:

a) bod costau cyni wedi'u hysgwyddo i raddau annheg gan bobl dlawd, menywod, lleiafrifoedd ethnig, plant, rhieni sengl a phobl anabl;

b) mai Cymru sydd â'r gyfradd tlodi cymharol uchaf yn y Deyrnas Unedig;

c) bod y gweinyddiaethau datganoledig wedi ceisio lliniaru effeithiau gwaethaf cyni, a hynny er gwaethaf dioddef gostyngiadau sylweddol yn eu cyllid grant bloc; a

d) ei bod yn "warthus" bod rhaid i genhedloedd datganoledig wario arian i ddiogelu pobl rhag polisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Yn croesawu ffocws Llywodraeth Cymru ar drechu tlodi, a'i galwadau parhaus ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â diffygion niferus Credyd Cynhwysol.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22/11/2018 i'w hateb ar 27/11/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OAQ52981

**(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu ffyniant economaidd yng Ngogledd Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

2 OAQ52990

**(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd mewn ymateb i adroddiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 2018, 'A yw Cymru'n decach?'?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3 OAQ53016

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar wella signal ffonau symudol yng nghanolbarth Cymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OAQ53014

**(e)**

Pa gamau diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau cyfraddau ysmygu yng Nghymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

5 OAQ52980

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio canabis at ddibenion meddyginiaethol?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

6 OAQ53018

**(w)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effeithiolrwydd gofal iechyd yn y gymuned yng Ngogledd Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**7** OAQ52994

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leddfu tagfeydd yng Nghasnewydd a'r cyffiniau?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**8** OAQ52997

**(e)**

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i fabwysiadu terfynau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer allyriadau o ronynnau?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**9** OAQ52998

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am seilwaith trafnidiaeth gogledd Cymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**10** OAQ53005

**(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran datblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â chaethiwed i hapchwarae yng Nghymru?

**David Rees** *Aberafan*

**11** OAQ53017

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith Rhentu Doeth Cymru ar wella ansawdd llety rhent?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**12** OAQ52984

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ein diweddaru ar gynllun ffordd osgoi Bontnewydd, yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Mai y bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**13** OAQ52989

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith yr economi gig yng Nghymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

14 OAQ52991

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r gost o ddod ag Aston Martin Lagonda i Gymru?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

15 OAQ53001

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r datganiad a wnaed gan rapporteur y Cenhedloedd Unedig, yr Athro Phillip Alston, yn dilyn ei ymweliad â'r DU?